# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23

Mae'r datganiad hwn yn diwallu'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol
yn unol â Rheoliad 4 o
Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2010)

## 1. Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau’n cael eu cynnal yn unol â’r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a’i gyfrifo amdano yn briodol, ac yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ddarostyngedig i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i bennu Amcanion Lles sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r 7 Nodau Lles fel y nodir yn y Ddeddf, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy’n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ar ben hynny, mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag 'egwyddor cynaliadwyedd statudol', sy'n golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Wrth gyflawni’r cyfrifoldebau eang hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy’n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy’n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / Solace “Delivering Good Governance in Local Government”.  Mae’r datganiad hwn yn esbonio sut mae’r Awdurdod yn cydymffurfio â’r cod a hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad rheolaeth fewnol.

Mae’r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi’i adolygu a’i ddiweddaru, fel rhan o adolygiad mwy ar drefniadau llywodraethu’r Awdurdod yn 2021/22. Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol newydd yn ffurfiol gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2022.

## 2. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu ag, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i ddylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gall felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod ac yn blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

## 3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor i lywodraethu'n dda:

- **Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- **Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr
- **Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- **Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir
- **Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
- **Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy gyfrwng rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
- **Egwyddor 7:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn datblygu ac yn gweithredu ei gynllunio corfforaethol strategol trwy fabwysiadu:

- Cynllun Eryri (Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol);
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant; a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae'r 4 dogfen yma yn cynrychioli conglfaen gwaith yr Awdurdod wrth gyflawni ei brif bwrpasau, fel y diffinnir yn Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac wrth weithredu ei weledigaeth.

Strwythur Llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn cynnwys 4 prif bwyllgor:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda 18 o Aelodau a benodwyd, ac yn ystod 2022/23 cynhaliwyd 5 cyfarfod.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 3 gwaith yn ystod 2022/23. Fel rhan o'i gylch gwaith mae'n ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â gofynion CIPFA.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad 7 gwaith yn ystod 2022/23. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Safonau'r Awdurdod dwywaith yn ystod 2022/23. Mae aelodaeth y pwyllgor, sydd gyda gylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, yn cynnwys 3 Aelod o'r Awdurdod a 3 aelod annibynnol.

Mae'r Rheolau Sefydlog yr Awdurdod (a gyhoeddwyd ar y wefan) yn rhoi disgrifiad manwl o'r trefniadau ar gyfer pob pwyllgor. Ar gyfer pob pwyllgor, mae'r rhaglen, cofnodion ac adroddiadau cysylltiedig â phapurau cefndir i gyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Tîm Rheoli

Mae strwythur rheoli'r Awdurdod yn cynnwys y Prif Weithredwr (sydd hefyd yn 'Swyddog y Parc Cenedlaethol' ac yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a dau Gyfarwyddwr. Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod yn cyfarfod bob pythefnos, gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Adnoddau Dynol yn mynychu.

Safonau

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Ymddygiad i Aelodau, sy'n cynnwys adran sy'n cyfeirio'n benodol at fuddiannau a Chofrestr Buddiannau Aelodau. Y Cod Ymddygiad i staff yw'r cod ymddygiad safonol cenedlaethol ar gyfer cyflogeion awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r polisïau a gweithdrefnau canlynol ar gyfer cynnal safonau uchel o ymddygiad ar gyfer staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd tuag at y cyhoedd:

- Y Drefn Gwyno – wedi'i sefydlu ar fodel drefn cwynion ymarfer da gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru;

- Polisi Seinio Rhybudd - i alluogi staff i leisio pryderon difrifol yn hyderus gyda’r sicrwydd o wybod y ceir eu hymchwilio yn drwyadl ac mewn ffordd deg, heb ofni dial;
- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth - yn cynnwys mesurau sydd wedi’u cynllunio i rwystro unrhyw weithred o dwyll neu lygredigaeth, a pha gamau y dylid eu cymryd petai rywbeth o’r fath yn digwydd; ac y
- Cynllun Dirprwyo - yn amlinellu sut mae swyddogaethau’r Awdurdod llawn yn cael eu cyflawni trwy ddirprwyo i’w bwyllgorau a’i is-bwyllgorau

Rheoli Risg

Mae Polisi a Strategaeth Rheoli Risg wedi’i sefydlu. Caiff y broses o adnabod risgiau ei chydlynu gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, gyda mewnbwn gan y Tîm Rheoli a’r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae’r Gofrestr Risg a’r mesurau lliniaru yn cael eu hadolygu a’i ddiweddaru’n chwarterol.

Archwiliad Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o drefniadau rheolaeth a llywodraethu mewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd. Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnolyn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU. Mae’r Rheolwr Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy’n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad Allanol

Archwilio Cymru sy’n gweithredu fel archwilydd allanol i’r Awdurdod, ac felly sy’n adrodd ar reolaeth ariannol a pherfformiad yr Awdurdod. Yn ogystal, mae Archwilio Cymru yn rhoi barn ar ddigonolrwydd y gwaith archwilio mewnol.

Swyddog Monitro

Mae’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi’i enwebu fel Swyddog Monitro. Mae gan y Swyddog Monitro'r ddyletswydd benodol i sicrhau bod Aelodau a benodwyd a Swyddogion yr Awdurdod yn cynnal y safon uchaf o ymddygiad ym mhopeth a wnânt. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar drefn gyfansoddiadol a chyfreithlondeb gweithredoedd yr Awdurdod.

Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2016). Y Prif Swyddog Cyllid (sydd yn Brif Swyddog Cyllid Cyngor Gwynedd) yw’r swyddog sydd â chyfrifoldebau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Gymerwyd yn ystod y Flwyddyn

Mae'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd craidd ar yr Awdurdod i osod amcanion lleisiant sy'n macsimeiddio ein cyfraniad at gyflawni'r 7 nodau llesiant a osodwyd yn y Ddeddf. Dylai amcanion llesiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid yn y tymor hir.

Mae Datganiad Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2021-26 yn gosod allan Amcanion Llesiant sy'n disgrifio sut y byddant yn helpu'r Awdurdod i gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru.

Mae'r Amcanion Llesiant yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol - Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio - ac maent wedi'u halinio â phump is-thema i roi ffocws, fel yr amlinellir islaw.

Amgylcheddau Cydnerth
1. Gwella rheolaeth hamdden ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden.
2. Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd.
3. Gwella rheolaeth a'r ddealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol.
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit.
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

Cymunedau Cydnerth
1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd preswylwyr.
2. Cefnogi pobl ifanc.
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol.
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol.
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd Cydnerth o Weithio
1. Datblygu gweithlu medrus.
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau.
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu.
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol tuag at waith y Parc Cenedlaethol.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n nodau llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.
2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant

cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.

3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu’r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2022/23 i’w chymeradwyo fel dogfen waith gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 15fed o Fehefin 2022. Mae’r Rhaglen yn gosod y prosiectau, cynlluniau a chamau gweithredu penodol yr ymgymerir â hwy er mwyn cyflawni Amcanion Llesiant a Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod.

Adroddwyd ar gynnydd y Rhaglen adrodd i’r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 30ain o Dachwedd. Disgwylir i’r adroddiad blynyddol llawn ar y Rhaglen Waith Corfforaethol gael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2023.

## 5. Effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae’r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a’r rheolwr uwch o fewn yr Awdurdod, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar y saith egwyddor o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

**Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

| | |
|---|---|
| **Cod Llywodraethu Corfforaethol** | Cafodd llywodraethu ei graffu'n fanwl yn ystod 2021/22 gan Grŵp Tasg a Gorffen o Swyddogion ac Aelodau a sefydlwyd yn arbennig i'r diben hwn.<br><br>Adolygwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn fanwl a'i ailddrafftio gan y Grŵp, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gonglfaen ar gyfer llywodraethu effeithiol yn y dyfodol.<br><br>Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu diwygiedig yn ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 27ain o Ebrill 2023. |
| | |
| **Pwyllgor Safonau** | Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ddwywaith yn ystod y flwyddyn.<br><br>O fis Mai 2022 roedd cylch gwaith y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dyletswydd statudol ychwanegol i baratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ar sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni a darparu trosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod.<br><br>Roedd y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar y 1af o Ebrill 2022 wedi'i neilltuo'n bennaf i gytuno ar yr Adroddiad Blynyddol, a gyflwynwyd yn ddiweddarach i'r Awdurdod yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar y 15fed o Fehefin 2002.<br><br>Yn ail gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar yr 2il o Fedi 2022, ystyriwyd busnes arferol y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys enwebu Aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl, Caniatáu Goddefebau ac ystyried Adroddiad Monitro Cwynion Blynyddol yr Awdurdod yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| | |
| **Polisi Seinio Rhybudd** | Yn ystod 2022/23, ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod o dan y Polisi Seinio Rhybudd. |
| | |
| **Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth** | Yn ystod 2022/23 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion honedig o dwyll neu lygredigaeth mewn perthynas â unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod, ac ni adnabuwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod eu gwaith archwilio. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Model Cod Ymddygiad** | Yn ystod 2022/23, ni fu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i’r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. |
| | |
| **Cwynion – Swyddogion** | Yn ystod 2022/23, derbyniodd yr Awdurdod gyfanswm o 7 cwyn ffurfiol.<br><br>Cyfeiriwyd dwy o’r cwynion hyn yn ddiweddarach at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a wrthododd ymchwilio ymhellach.<br><br>Ni fu’r Awdurdod felly yn destun ymchwiliad ffurfiol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2022/23. |
| | |
| **Cwynion – Aelodau** | Yn ystod 2022/23, ni dderbyniodd Swyddog Monitro’r Awdurdod unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â’r Aelodau, a ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| | |
| **Rheolau Sefydlog** | Adolygwyd Rheolau Sefydlog yr Awdurdod fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu yn ystod 2021/22.<br><br>Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod yr Awdurdod yn parhau â'i strwythur pwyllgorau presennol ond y dylai'r Awdurdod yn y dyfodol ystyried newid sy'n rhoi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth benodol gan yr Awdurdod). |
| | |
| **Rheolau Sefydlog parthed Cytundebau** | Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig newydd o’r Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chontractau i’r Awdurdod i’w mabwysiadu yn ei gyfarfod ar yr 16eg o Dachwedd 2022.<br><br>Mae’r adolygiad yn ymgorffori’r argymhellion a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ac a dderbyniwyd yn flaenorol, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â’r holl reoliadau newydd sy’n ymwneud ag ymadael â’r Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn darparu sylfaen i'r Awdurdod ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol yn ei bolisi caffael gwyrdd. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Dirprwyo** | Adolygwyd y Cynllun Dirprwyo fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu yn ystod 2021/22.<br><br>Daeth y Grŵp i'r casgliad bod y Cynllun Dirprwyo Swyddogion presennol yn parhau i fod yn addas i'r diben, ac felly ni wnaethpwyd unrhyw argymhelliad ar gyfer newidiadau. |
| | |
| **Cofrestr Buddiant / Diddordebau Aelodau** | Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i gyhoeddi'r Gofrestr gyfredol o Ddiddordebau / Fuddiant Aelodau ar wefan yr Awdurdod.<br><br>Mae'n gyfrifoldeb ar bob Aelod o'r Awdurdod i ddiweddaru eu cofnod buddion/diddordebau ac i adrodd ar unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Serch hynny, mae'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau yn anfon copi o'u cofnod cyfredol i bob Aelod ar ôl bob Cyfarfod Blynyddol o'r Awdurdod, ac yn gofyn iddynt eu hadolygu a'i diweddaru os yn berthnasol. |

**Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr

| | |
|---|---|
| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 30ain o Dachwedd 2021.<br><br>Adroddwyd ar gynnydd yr Awdurdod gyda'i gynllun gweithredu o ran cyrraedd ei Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn, data monitro cyflog cyfartal a data cydraddoldeb staff. |
| | |
| **Ymgynghori Uniongyrchol** | Yn ystod 2022/23 parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol trwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau, cyfarfodydd ar-lein yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb, gweithdai a chymorthfeydd ymgynghori.<br><br>Gan fod yr holl gyfyngiadau Covid-19 sy'n weddill wedi'u dileu yn ystod y flwyddyn, mae mwy o hyblygrwydd yn y nifer a'r mathau o ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu bellach ar |

| | |
|---|---|
| | gael i'r Awdurdod. Mae hyn yn ein galluogi i gyrraedd mwy o bobl drwy ddarparu ffyrdd mwy hygyrch o ymgysylltu.<br><br>Mae cyfarfodydd hybrid a digwyddiadau ymgynghori yn arbennig o boblogaidd, gan eu bod yn caniatáu mynediad i bobl y mae'n well ganddynt ymgysylltu wyneb yn wyneb yn ogystal â phobl y mae'n well ganddynt ymgysylltu ar-lein neu sy'n ei chael hi'n fwy ymarferol i fynychu trwy’r cyfrwng hwn.<br><br>Mae'r dechnoleg sy'n galluogi hyn yn dal yn newydd iawn i'r Awdurdod ac i rai aelodau o'r cyhoedd. Fodd bynnag, gydag ymarfer a mwy o ddefnydd, bydd profiadau'n gwella dros amser. |
| | |
| **Strategaeth Cyfathrebu a Ymgysylltu** | Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen hanfodol ym mhopeth y mae’r Awdurdod yn ei wneud.  Mae hefyd yn faes lle mae yna wastad lle i wella, ac mae strategaeth yr Awdurdod yn adlewyrchu hyn.<br><br>Mae datblygiadau technolegol cyflym a'r twf parhaus mewn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a lefelau cyfranogi yn golygu bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio'n llawn ar gyfathrebu'n effeithiol trwy'r sianeli cywir ar yr adeg iawn gydag ystod eang o gynulleidfaoedd.<br><br>Cyflwynwyd yr ail adroddiad blynyddol ar y strategaeth i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 22ain o Fawrth 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data ar gyfer y dangosyddion perfformiad a nodir yn y strategaeth.<br><br>Wrth ystyried yr adroddiad blynyddol cafwyd trafodaethau ynghylch dyfodol cyfryngau cymdeithasol a sut y bu i'r Awdurdod elwa yn ystod y cyfyngiadau symud yn arbennig, trwy gyfathrebu effeithlon. Cadarnhawyd bod sianeli cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod â rôl bwysig o ran ymgysylltu a chyfathrebu ar fesurau trafnidiaeth gynaliadwy sydd ar waith o amgylch Yr Wyddfa ac ati. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod staff yn symud i ffwrdd o blatfform TikTok, ar ôl i bryderon diogelwch gael eu hamlygu yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU. |
| | |
| **Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol** | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi cyhoeddi canllaw ar wybodaeth, ac mae'r ddau ohonynt ar gael ar y wefan.<br><br>Yn ystod 2022, derbyniwyd 30 o geisiadau, ac o’r rhain fe dderbyniodd 21 yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani |

| | |
|---|---|
| | (70%). O'r 9 cais arall, cafodd 3 eu gwrthod neu eu gwrthod yn rhannol oherwydd nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu nid oedd yr awdurdod yn cadw'r wybodaeth, gwrthodwyd 2 gais yn rhannol gan fod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn datgelu pwy yw aelodau o'r cyhoedd sy'n adrodd am achosion posibl o dor-rheolaeth cynllunio, gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod yn cynnwys data personol trydydd parti, gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth a ddosbarthwyd yn fasnachol sensitif, a gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod ar gyfer ymateb yr Awdurdod i gais am gyngor cyn-cyflwyno cais cynllunio, nad oedd wedi arwain at gais cynllunio. Mae'n bolisi gan yr Awdurdod i gadw'r rhain yn gyfrinachol hyd nes y cyflwynir cais cynllunio, ac yn unol â hynny mae'n cael ei ddosbarthu fel eithriedig o dan Reoliad 12(5)(f) o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.<br><br>Cafodd yr Awdurdod ei herio ar hyn yn flaenorol yn 2020, a chadarnhaodd y Comisiynydd Gwybodaeth benderfyniad yr Awdurdod.<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch unrhyw gais am wybodaeth. |
| | |
| **Rhaglenni Pwyllgorau ac Adroddiadau Cysylltiedig** | Mae rhaglenni ac adroddiadau cysylltiedig Pwyllgorau'r Awdurdod yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn bob cyfarfod.<br><br>Mae archif o raglenni a dogfennau cysylltiedig o bwyllgorau'r gorffennol hefyd ar gael ar y wefan. |

**Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

| | |
|---|---|
| **Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa** | Er na chyflwynwyd adroddiad diweddaru ffurfiol ar Gynllun Yr Wyddfa i'r Aelodau yn ystod 2022, cyhoeddwyd tri chylchlythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bartneriaeth a chafwyd trafodaeth ar yr elfen parcio a thrafnidiaeth yng Ngweithgor Aelodau Hydref 2022.<br><br>Ers lansio'r Cynllun yn 2018 mae llawer o'r prosiectau cychwynnol wedi'u cwblhau ac mae'r Bartneriaeth yn bwriadu adolygu'r Cynllun yn ystod 2024 gyda lansiad fersiwn diwygiedig – pum mlynedd ers creu'r Cynllun gwreiddiol. Mae enghreifftiau o'r prosiectau sydd wedi'u cwblhau yn cynnwys: Ap Teithiau Cerdded Llwybrau'r Wyddfa; Rhaglen Llysgenhadon Ar-lein; safle bws a bwrdd gwybodaeth Nant Peris; Creu a gweithredu Cynllun Cyfathrebu; Gwell dehongliad o ranbarth Yr Wyddfa; a Phrosiect sbwriel.<br><br>Un o flaenoriaethau'r Cynllun yw gweithredu Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen. Mae llawer o'r elfennau cychwynnol wedi'u rhoi ar waith gyda chymorth Trafnidiaeth Cymru, ac mae'r gwaith ar yr elfen hollbwysig hon yn mynd rhagddo'n gyflym.<br><br>Ym mis Hydref 2022, penododd yr Awdurdod Swyddog Yr Wyddfa Ddi-blastig am 2 flynedd. Mae'r prosiect uchelgeisiol hwn yn cychwyn ar 'Llwybr Di-blastig' ynghyd ag ymwelwyr, busnesau ac ysgolion, a dysgu oddi wrth ein gilydd i warchod y mynydd. Y nod yw lleihau faint o blastig untro sy'n cael eu gwerthu, eu defnyddio a'u taflu ar fynydd prysuraf Cymru ac o'i amgylch. Y gobaith yw dileu pob plastig diangen o'r llif gwastraff yn y dyfodol. Bydd yr hyn a ddysgir o'r peilot hwn yn cael ei ddefnyddio i roi prosiectau tebyg ar waith ar draws ardal y Parc Cenedlaethol. |
| | |
| **Cynllun Eryri** (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri) | Mabwysiadwyd Cynllun Eryri gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel ei Gynllun Rheoli (Partneriaeth) statudol ym mis Hydref 2020 ac fe'i lansiwyd yn swyddogol ym mis Tachwedd 2020. Mae'r ail adroddiad cynnydd blynyddol sy'n casglu mewnbwn gan yr holl Bartneriaid o fis Tachwedd 2021 hyd at ddiwedd 2022 ar ffurf drafft ar hyn o bryd.<br><br>Parhaodd 2021-22 i fod yn heriol i bob Partner. Amlygodd cyfnodau clo pandemig Covid-19 faterion newydd, yn ogystal â chyflymu ffyrdd arloesol o weithio. Serch hynny, |

| | |
|---|---|
| | trwy gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad blynyddol, mae'n amlwg bod enghreifftiau rhagorol o waith sy'n cael ei ddatblygu tuag at nodau Cynllun Eryri yn bodoli ar draws y rhanbarth.<br><br>Yn ei ail flwyddyn weithredol, mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud ar Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Ganlyniadau sydd wedi'u hasesu fel rhai Heb eu symud ymlaen a/neu mewn perygl. Mae'n deg casglu felly bod cynnydd wedi'i gyflawni ym mhob maes o Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri yn y flwyddyn o 2021-22.<br><br>Bydd yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2022 yn cael ei drafod yng nghyfarfod Fforwm Eryri ar 16eg Mai 2023 a'r gobaith yw y caiff ei gyflwyno i aelodau'r Awdurdod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 14eg Mehefin 2023 i'w fabwysiadu. |
| | |
| **Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031** | Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (CDLl) diwygiedig ar y 6ed o Chwefror 2019.<br><br>Cyflwynwyd yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar yr 19eg o Hydref 2022, ac roedd yn cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2021 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022. Cyflwynir yr AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain o Hydref bob blwyddyn.<br><br>Yn ogystal â chymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol 2021-22, cymeradwyodd y Pwyllgor yr angen i gynnal adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 mabwysiedig o ganlyniad i dystiolaeth yr Adroddiad Monitro Blynyddol, newidiadau cyd-destunol cenedlaethol a lleol sylweddol, a chyhoeddiad Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) ynghyd â newidiadau eraill mewn polisi cenedlaethol.<br><br>Cadarnhawyd y camau nesaf ar gyfer cynnal adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 mabwysiedig hefyd, trwy baratoi Adroddiad Adolygu ac adrodd ar y canfyddiadau i Lywodraeth Cymru. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy** | Yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Chwefror 2023, mabwysiadodd yr Awdurdod y Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri (2035) yn ffurfiol.<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd yw'r unig ddau awdurdod cyhoeddus yn y DU sydd â strategaeth o'r fath.<br><br>Mae'r egwyddorion yn y Strategaeth wedi'u datblygu a'u derbyn trwy ymgynghori helaeth, a oedd yn cynnwys Aelodau'r Awdurdod.<br><br>Ni all y Cynllun gael ei weithredu gan y ddau bartner yn unig, mae'n dibynnu ar Bartneriaeth eang a newydd er mwyn gwireddu'r weledigaeth. Un o'r camau cyntaf fydd sefydlu Partneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a fydd yn dod â phartneriaid ynghyd am y tro cyntaf i drafod y dyfodol ar gyfer yr ardal yn ffurfiol. |
| | |
| **Cynllun Corfforaethol 2021-22** | Gan fod yr Awdurdod bellach wedi mabwysiadu Datganiad Llesiant sy'n cynnwys ei Amcanion Llesiant am gyfnod o bum mlynedd o 2021-26; ni fydd angen adolygiad blynyddol.<br><br>Bydd y camau y cytunwyd arnynt yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn awr yn ddigon i alluogi'r Awdurdod i asesu ei gynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant ac felly ni fydd angen adroddiad Dangosyddion Perfformiad ar wahân. Mabwysiadwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol 2022/23 gan yr Awdurdod ar yr 15fed o Fehefin 2022.<br><br>Rhoddwyd diweddariadau i'r aelodau ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant, a amlinellwyd yn Rhaglen Waith Gorfforaethol 2022/23.<br><br>Adroddwyd ar gynnydd dau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 30ain o Dachwedd 2022. Bydd adroddiad cynnydd y trydydd a'r pedwerydd chwarter yn cael ei gyflwyno i'w ystyried ym mis Gorffennaf 2023. |

**Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

| | |
|---|---|
| **Strategaeth y Gyllideb 2022/23** | Cadarnhawyd cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2022/23 gan y Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 9fed o Chwefror 2022. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cadarnhau'r lefi ar awdurdodau cyfansoddol.<br><br>Cyflwynwyd diweddariad i'r Gyllideb i'r Awdurdod ar y 16eg o Dachwedd 2022 ac i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 22ain o Fawrth 2023.<br><br>Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa refeniw rhagamcanol diwedd blwyddyn o falans gwariant net o £19,345 yn is na lefel y gyllideb. Er gwaethaf y gorwariant sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth, mae tanwariant cyffredinol oherwydd swyddi heb eu llenwi yn ystod y flwyddyn wedi cyfrannu i leihau y gorwariant mewn meysydd gwasanaeth eraill.<br><br>Yn ogystal, roedd y ddarpariaeth wreiddiol o 4% ar gyfer codiadau cyflog yn annigonol gan olygu bod angen £84k ychwanegol. Yn ystod 2021/22, dyfarnwyd dau hicyn o gynydd ar gyfer bob swydd o fewn yr Awdurdod ar wahân i'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr. Ers hynny mae'r Awdurdod wedi penderfynu dyfarnu cynnydd cyfatebol i swyddi'r Cyfarwyddwyr a fydd yn cael ei ddyddio o fis Ebrill 2022. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto a ddylid dyfarnu cynnydd tebyg i swydd y Prif Weithredwr. |
| | |
| **Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 – 2026/27** | Yn ei gyfarfod ar yr 26ain o Ebrill 2023, cyflwynodd y Prif Weithredwr y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig ar gyfer 2023/24 – 2026/27 i'r Awdurdod, sy'n amlinellu ystod o sefyllfaoedd ariannol a all wynebu'r Awdurdod dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn amlinellu model o'r adnoddau ariannol sydd eu hangen ar yr Awdurdod ar gyfer y lefelau gwasanaeth y mae'n gobeithio eu darparu yn y tymor canolig.<br><br>Cadarnhaodd y Cynllun fod y targedau incwm ar gyfer 2023/24 wedi eu cynnal ar yr un lefel â 2021/22 ac eithrio Plas Tan y Bwlch. Dywedwyd hefyd y bydd setliad craidd Grant y Parc Cenedlaethol yn aros ar yr un lefel dros y 3 blynedd nesaf, heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer chwyddiant. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Cynllun hefyd yn nodi bod y ffigwr chwyddiant cyffredinol wedi cynyddu o'i swm hanesyddol o £10,000 i £15,000 erbyn 2022/23, gyda chynnydd pellach i £30,000 yn y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2023/24. Mae datblygiadau diweddar yn awgrymu y gallai effaith chwyddiant fod tua 10% ar gyfer 2023/24 cyn gostwng yn y blynyddoedd dilynol.<br><br>Mae unrhyw arian ychwanegol a dderbynnir drwy grantiau penodol (heblaw grantiau craidd) yn dod â gwaith gweinyddol ychwanegol sy'n ymestyn adnoddau staff presennol. Felly, mae angen ystyried goblygiadau'r pwysau gwaith ychwanegol hwn ar rai o wasanaethau'r Awdurdod drwy werthuso gwerth y grantiau yn erbyn y gofynion staff ychwanegol. |
| | |
| **Rheoli Perfformiad** | Cafodd y mecanwaith ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant yr Awdurdod a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol eu nodi'n ffurfiol yn 2021/22.<br><br>Mae'n cadarnhau y bydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn craffu perfformiad ar y camau gweithredu a gynhwysir yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n rhoi cipolwg ar gynnydd bob chwarter.<br><br>Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 a gymeradwywyd i'w fabwysiadu a'i gyhoeddi gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar yr 12fed o Hydref 2022, yn adrodd ar gynnydd Blwyddyn 1 o ran cyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod. |

**Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

| | |
|---|---|
| **Rol Disgrifiadau Aelodau** | Mabwysiadwyd y disgrifiadau rôl ddiwygiedig ar gyfer Aelodau a'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gan yr Awdurdod ar yr 27ain o Ebrill 2022.<br><br>Gwnaethpwyd newidiadau i gryfhau pwyslais rôl aelodau wrth osod cyfeiriad strategol ac uchelgais ar gyfer yr Awdurdod, gan ddarparu cyflwyniad trosfwaol gan gynnwys pwrpas Parciau Cenedlaethol a rôl yr Awdurdod wrth gyflawni'r dibenion hyn, a chryfhau'r adran ar ddatblygiad personol a rôl. |
| | |
| **Presenoldeb Aelodau** | Mae platfform ar-lein Zoom ar gyfer cynnal pwyllgorau a chyfarfodydd eraill bellach wedi'i sefydlu'n dda ar draws yr Awdurdod ac mae'n gweithio'n dda.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd yr Awdurdod mewn offer ar gyfer galluogi cyfarfodydd hybrid, a fydd bellach yn dod yn gyffredin ar draws awdurdodau cyhoeddus.<br><br>Ar ôl ychydig o sesiynau hyfforddi gyda staff ac Aelodau, y pwyllgor hybrid swyddogol cyntaf a gynhaliwyd oedd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 30ain o Dachwedd 2022.<br><br>Gall aelodau'r cyhoedd arsylwi'r pwyllgorau yn bersonol ym Mhlas Tan y Bwlch neu gallant gofrestru ymlaen llaw i gael mynediad trwy Zoom.<br><br>Roedd presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd yn ystod 2022/23 yn 82%, o gymharu â 82% yn 2021/22 ac 88% yn 2020/21. |
| | |
| **Hyfforddiant Aelodau** | Yn 2022/23, roedd presenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi yn 70% (75% yn 2021/22).<br><br>Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd un Diwrnod Datblygu Aelodau ar y 14eg o Hydref 2022. Roedd y diwrnod yn cynnwys taith o amgylch Yr Ysgwrn a thrafodaeth am ddatblygiadau'r dyfodol, taith dywys o amgylch Coetir Ganllwyd ar ôl cyflwyniad i Brosiect Coed Glaw Celtaidd LIFE, a thaith dywys yn Nyffryn Ardudwy gyda Wardeniaid i drafod datblygiadau llwybrau yn yr ardal. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Gwerthusiadau Perfformiad a Hyfforddiant Staff** | Nodir anghenion dysgu a datblygu mewn adolygiadau gwerthuso perfformiad blynyddol, sy'n amlinellu blaenoriaethau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod.<br><br>Mynegwyd pryder dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bod canran y staff a arfarnwyd yn parhau i fod yn isel, ac yn 2020/21 roedd wedi gostwng i 32%. Mae data o 2022/23 yn dangos bod 37% o staff wedi'u gwerthuso er y gallai'r ffigwr gwirioneddol fod yn uwch. Mae system fonitro newydd bellach wedi'i rhoi ar waith i gasglu data dibynadwy ar hyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. |
| | |
| **Strategaeth Adnoddau Dynol** | Roedd absenoldebau salwch staff yn 11.5 diwrnod yn 2019/20, ond roedd hyn wedi gostwng yn sylweddol i 3 diwrnod yn 2020/21. Credir bod cyfuniad o'r rhan fwyaf o staff sy'n gweithio gartref a chysylltiadau cymdeithasol cyfyngedig oherwydd y cyfnod clo wedi lleihau salwch heintus yn sylweddol, sydd wedi arwain at lai o absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff o ganlyniad.<br><br>Yn 2022/23 roedd absenoldebau salwch staff yn 6.95 diwrnod ar gyfartaledd.<br><br>Fodd bynnag, nid oes data personél pellach ar gael ar hyn o bryd, gan nad yw'r Adroddiad Diweddaru Blynyddol ar weithredu Strategaeth Adnoddau Dynol yr Awdurdod wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ystod 2021/22 na 2022/23. Mae hyn oherwydd bod y Pennaeth Personél wedi ymddeol ar y 30ain o Fehefin 2021, a'r methiant dilynol i benodi i'r swydd.<br><br>Penodwyd Pennaeth Adnoddau Dynol newydd a dechreuodd yn ei swydd ar y 13eg o Fehefin 2022. Ers hynny, mae canran sylweddol o amser y Pennaeth wedi ei dreulio ar reoli staff ac adnoddau ym Mhlas Tan y Bwlch oherwydd bod staff allweddol ar absenoldeb salwch.<br><br>Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, mae cyfwerth â 4 diwrnod ychwanegol o adnoddau staffio wedi'u rhoi i'r gwasanaeth yn barhaol, er mwyn cynyddu gwydnwch hirdymor ac i allu cael adnoddau digonol i gyflawni pob agwedd o gyfrifoldebau'r gwasanaeth sydd wedi cael eu hesgeuluso dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd hyn yn cynnwys gwaith ar adolygu a diweddaru'r Strategaeth Adnoddau Dynol.<br><br>Er nad yw'r Strategaeth ei hun wedi'i diweddaru, mae gwaith eisoes wedi'i wneud ar ailwampio a gwella meysydd blaenoriaeth allweddol o fewn y Strategaeth i fynd i'r afael â |

| | |
|---|---|
| | materion recriwtio a chadw staff. Er enghraifft, mae hyfforddiant Ymsefydlu'r Awdurdod ar gyfer staff newydd wedi'i ddiweddaru a'i wella, ac mae gwaith wedi dechrau ar drefniadau gweithio hyblyg a hybrid parhaol ar gyfer staff. |

**Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

| | |
|---|---|
| **Datganiadau Ariannol** | Ni chwblhawyd y Datganiad Cyfrifon drafft o fewn yr amserlen estynedig sef y 31ain o Awst 2022. Cawsant eu cyflwyno i'r Awdurdod ar yr 12fed o Hydref 2022.<br><br>Cyn hyn, roedd yr Aelodau wedi cymeradwyo'r Adroddiad Alldro ar gyfer 2021/22 ym Mhwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 13eg o Orffennaf 2022.<br><br>Dechreuodd Archwilio Cymru ar archwiliad o'r Datganiad Cyfrifon ar yr 19eg o Fedi 2022. Mae'r amserlen fwriedig fel y'i gosodwyd yn unol â'r rheoliadau, sef y byddai'r Archwilydd Penodedig yn cwblhau'r archwiliad ac yn cyflwyno'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol i'r Aelodau mewn cyfarfod o'r Awdurdod cyn 30ain o Dachwedd 2022, i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.<br><br>Fodd bynnag, roedd anawsterau wedi codi oherwydd yr angen i ail-werthuso asedau'r Awdurdod bob 5 mlynedd. Mae'r gwaith wedi'i wneud gan briswyr allanol ac rydym yn dal i aros am fanylion pellach. Mynychodd cynrychiolydd Archwilio Cymru gyfarfod yr Awdurdod ar yr 8fed o Chwefror 2023 a rhoddwyd ddiweddariad i'r perwyl hwn.<br><br>Ar adeg yr adroddiad, roedd y broses hon yn dal i fynd rhagddi, sy'n golygu nad yw'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2021/22 wedi'i ardystio a'i gymeradwyo'n ffurfiol eto. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Rheoli Risg** | Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n chwarterol gan Benaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli.<br><br>Fel y nodir yn y Gofrestr Risg, mae'r cyfrifoldeb dros y risgiau a adnabuwyd yn cael eu dyrannu i swyddogion a enwir ac mae dyddiad targed yn cael ei osod ar gyfer mesurau lliniaru. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu gan Aelodau ym mhob Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac mae unrhyw risgiau sy'n cael eu tynnu i ffwrdd o'r Gofrestr yn cael ei gadarnhau yn flynyddol mewn cyfarfod yr Awdurdod. |
| | |
| **Archwilio Allanol** | Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 27ain o Ebrill 2022, cyflwynodd Archwilio Cymru ei Gynllun Archwilio ar gyfer 2022. Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau archwilio a'r ymateb archwilio arfaethedig i'w cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod yr archwiliad perfformiad eto i'w gadarnhau bryd hynny. Cadarnhawyd y ffioedd archwilio hefyd.<br><br>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 15fed o Fehefin 2022, cyflwynodd Archwilio Cymru ei adroddiad yn nodi ei ganfyddiadau yn dilyn ei Adolygiad o Dwristiaeth Gynaliadwy ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae manylion llawn y canfyddiadau a'r argymhellion wedi'u nodi o dan Adran 6 (Materion Llywodraethu Arwyddocaol) yn y Datganiad hwn.<br><br>Ar ddechrau 2023, cychwynnodd Archwilio Cymru adolygiad ar lywodraethu o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, a fydd yn cynnwys craffu effeithiol, partneriaethau, cefnogi adferiad a chadernid, penodi aelodau a gwneud y mwyaf o'u cyfraniad drwy gydbwyso materion cenedlaethol a lleol. Mae'r adolygiad hwn yn mynd rhagddo.<br><br>Ar adeg yr adroddiad, nid oedd Archwilio Cymru wedi rhoi'r Crynodeb Archwilio Blynyddol eto. Mae hyn oherwydd nad yw'r Datganiad Cyfrifon wedi'i ardystio a'i gymeradwyo'n ffurfiol. |
| | |
| **Archwiliad Mewnol** | Bydd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd ar waith y flwyddyn ariannol ddiwethaf yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf.<br><br>Roedd tri archwiliad mewnol i'w cynnal yn ystod 2022/23, sef Hyfforddiant Mandadol, Hawliadau Costau Teithio a Chysoniadau Bancio. Oherwydd gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â newidiadau staff yn y Gwasanaeth Cyllid, |

| | |
|---|---|
| | gohiriwyd yr archwiliad Cysoniad Bancio a gwnaed archwiliad o Gronfa Gymunedol y Carneddau yn ei le.<br><br>Roedd archwiliadau Hawliadau Costau Teithio a Chronfa Gymunedol y Carneddau wedi cael eu graddio yn "Uchel" - gellir datgan sicrwydd o briodoldeb oherwydd gellir dibynnu bod y rheolaethau mewnol yn eu priod le i gyflawni'r amcanion.<br><br>Cafodd yr archwiliad ar Hyfforddiant Mandadol ei raddio fel "Digonol" - mae yna reolyddion yn eu lle i gyflawni'r amcanion ond mae rhai agweddau lle gellir tynhau'r trefniadau er mwyn lliniaru risgiau ymhellach.<br><br>O ganlyniad i yn, rhoddwyd un argymhelliad ar gyfer tynhau trefniadau hyfforddiant mandadol. |
| | |
| **Iechyd a Diogelwch** | Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod bob chwarter i fonitro materion iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod.<br><br>Mae'r Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cynnwys manylion y cyrsiau hyfforddiant a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r digwyddiadau / damweiniau a gofnodwyd.<br><br>Adroddwyd ei bod yn arferol cymharu data o flwyddyn i flwyddyn ar ddigwyddiadau a gofnodwyd, sydd hefyd yn cynnwys digwyddiadau y mae'n rhaid adrodd yn eu cylch i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan y 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)'. Fodd bynnag, nid yw data o 2020/21 yn gynrychioliadol oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys gweithio gartref ac am fod swydd y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn wag ers blwyddyn. Roedd hyn wedi arwain at sicrwydd annigonol bod y data a gasglwyd yn ystod 2021/22 yn gyflawn, ac felly nid oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.<br><br>Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg data cymaradwy am yr ail flwyddyn yn olynol. |
| | |
| **Canolfannau Gwybodaeth** | Mae gan yr Awdurdod 3 Ganolfan Gwybodaeth ym Metws y Coed, Beddgelert ac Aberdyfi, sydd yn cael eu rheoli gan Reolwr Twristiaeth Gynaliadwy, gyda'r prif nod i sicrhau bod y canolfannau yn hyfyw fasnachol / hunangynhaliol.<br><br>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 30ain o Dachwedd |

| | |
|---|---|
| | 2022. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r flwyddyn 2022/23 hyd yma, a'r camau i'w cymryd yn 2023/24.<br><br>Roedd yr adroddiad yn amlinellu niferoedd ymwelwyr manwl a data gwariant y pen ym mhob un o'r Canolfannau. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu nifer o heriau a brofwyd yn ystod y tymor gyda lefelau staffio oherwydd anawsterau recriwtio. |
| | |
| **Strategaethau Benthyca a Buddsoddi / Rheoli'r Trysorlys** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol sy'n darparu'r gweithgaredd Rheoli Trysorlys gwirioneddol (benthyca a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2021/22, i gyfarfod yr Awdurdod ar y 15fed o Fehefin 2022.<br><br>Yn ystod 2021/22 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthyca.<br><br>Yn 2021/22, cyfanswm y llog a dderbyniwyd o fuddsoddiadau oedd £10,846. Mae llog a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir o £710 yn cynyddu'r cyfanswm i £11,556 yn erbyn cyllideb o £8,000.<br><br>Mae swm llog banc a chymdeithas adeiladu o £10,846 ar gyfer 2021/22 yn gymaradwy gyda'r swm cyfatebol o £11,113 yn 2020/21. Er gwaethaf chwyddiant cynyddol, mae cyfraddau llog wedi aros yn isel yn ystod y flwyddyn.<br><br>Rhoddwyd adroddiad ar lafar Intermin ar Reoli'r Trysorlys yn yr Awdurdod ar y 16eg o Dachwedd 2022. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod cronfeydd a buddsoddiadau'r Awdurdod yn parhau i fod yn ddiogel a disgwylir incwm llog i fod yn £12K mwy na'r rhagamcan yng nghyllideb 2022/23.<br><br>Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cyllid y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2023/24 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 8fed o Chwefror 2023.<br><br>Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff y risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.<br><br>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn cychwyn 2023/24 yn ddi-ddyled. Cymeradwyodd yr Aelodau 'dim newid' i'r cyfyngiad benthyca awdurdodedig a'r ffin weithredol, a chymeradwywyd y Strategaeth |

| | |
|---|---|
| | Benthyca Cyfalaf a’r Strategaeth Buddsoddi ar gyfer 2023/24, a nodi’r cynnwys sy’n ymwneud a’r Cod Darbodus. |
| | |
| **Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch** | Mae Plas Tan y Bwlch yn parhau i ddatblygu ei fodel busnes ac mae wedi croesawu llawer o gyrsiau a chyfranogwyr yn ôl, tra'n parhau i fanteisio ar y farchnad Gwely a Brecwast a digwyddiadau. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cyfarfod yn chwarterol a rhoddir cofnodion ar raglen y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.<br><br>Cynyddwyd y risg o fethu â chyrraedd y targed cynhyrchu incwm ar gyfer Plas Tan y Bwlch i Uchel ar Gofrestr Risg yr Awdurdod ym mis Mawrth 2022. Cynhyddwyd y risg ymhellach unwaith eto ym mis Mawrth 2023 gyda sgôr uwch. Amlinellir y manylion o dan adran 6 y datganiad hwn.<br><br>Mae sicrhau dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch ar hyn o bryd yn cael ei ddosbarthu fel risg ganolig ar Gofrestr Risg yr Awdurdod. Ystyriwyd adroddiad gan yr Aelodau yn eu Gweithgor ar yr 19eg o Ebrill 2023, a oedd yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ariannol bresennol ac yn amlinellu materion i'w hystyried o ran dyfodol y busnes.<br><br>Penderfynwyd yn y cyfarfod hwn i aros am adroddiad yn y dyfodol yn manylu ar yr opsiynau gan Fwrdd Plas Tan y Bwlch yn nhymor yr Hydref 2023. |
| | |
| **Yr Ysgwrn** | Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn i’r Awdurdod ar yr 28ain o Ebrill 2022.<br><br>Mae’r adroddiad yn cadarnhau bod gan Yr Ysgwrn orwariant o £7,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22 oherwydd gostyngiad mewn incwm, cost comisiynu Cwricwlwm Yr Ysgwrn a chostau rheoli eiddo oherwydd amrywiol broblemau technegol gyda’r larwm a’r boeler biomas.<br><br>Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r cynlluniau safle arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn cydnabod bod targedau'r gyllideb yn heriol. Nid yw niferoedd ymwelwyr a thueddiadau incwm cyfatebol yn glir oherwydd yr aflonyddwch a achosir gan bandemig Covid-19.<br><br>Ym mis Mawrth 2023, mae’r Gofrestr Risg yn parhau i raddio’r risg y bydd Yr Ysgwrn yn methu â chyrraedd ei tharged cynhyrchu incwm yn Uchel. |

**Egwyddor 7:** Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

| | |
|---|---|
| **Datganiad Polisi Tâl** | Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn ystyriwyd ei fod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath, ac yn unol â hynny gwneir hyn yn flynyddol gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.<br><br>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2021/22 a Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 23ain o Fawrth 2022 gan sicrhau tryloywder o ran y taliadau cydnabyddiaeth ariannol i staff yn yr Awdurdod.<br><br>Ni chyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2022/23 a Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Mawrth 2023 fel sy'n arferol, a disgwylir iddo nawr gael ei gyflwyno yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau nesaf ym mis Gorffennaf 2023. |
| | |
| **Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella 2021/22** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella ar gyfer 2021/22 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 12fed o Hydref 2022, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan a'i ddosbarthu i brif ganolfannau'r Awdurdod, llyfrgelloedd cyhoeddus ac ati, o fewn y Parc Cenedlaethol.<br><br>Mae'n cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn, sy'n nodi'r hyn a gyflawnwyd, beth na chafodd ei gyflawni ac unrhyw broblemau a wynebwyd.<br><br>Mae hefyd yn cynnwys manylion am Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac Amcanion yr Awdurdod a osodir yn flynyddol sy'n bwydo i mewn ac yn dangos sut y bwriedir mynd â'r Parc Cenedlaethol yn ei flaen er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Awdurdod; gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag Amcanion yr Awdurdod, y gweithgareddau gwaith allweddol ar gyfer 2021/22, a rheoli perfformiad (gan gynnwys canlyniadau dangosyddion perfformiad ar gyfer y flwyddyn). |
| | |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgorau Hybrid a Darlledu** | Tua diwedd 2022, cychwynnodd yr Awdurdod gyfarfodydd Pwyllgor hybrid. Mae gan Aelodau a Swyddogion y dewis i fynychu'n bersonol ym Mhlas Tan y Bwlch neu ymuno ar-lein trwy Zoom.<br><br>Mae cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad hefyd yn cael eu gweddarlledu'n fyw ar sianel YouTube yr Awdurdod, yn ogystal â hynny mae recordiad o'r cyfarfod i'w weld ar unrhyw adeg. Felly gall aelodau'r cyhoedd naill ai fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn bersonol neu gallant gael mynediad o bell.<br><br>Mae hyn nid yn unig yn gwella mynediad i Aelodau a Swyddogion ond hefyd yn gwella mynediad, tryloywder ac adrodd ar fusnes yr Awdurdod i aelodau'r cyhoedd. |
| | |
| **Craffu Aelodau** | Yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 20fed o Dachwedd 2022, cyflwynwyd adroddiad i'r Aelodau i ystyried meysydd craffu pellach ar gyfer 2023-24.<br><br>Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Tîm Rheoli, ar ôl ystyried y pwysau presennol ar staff, wedi argymell na ddylai'r Awdurdod ymrwymo i raglen bellach o graffu strategol ar hyn o bryd.<br><br>Cadarnhawyd y byddai gwaith Craffu sydd eisoes ar y gweill ar Garbon ac Enwau Lleoedd yn parhau. |
| | |
| **Cyllido Grant** | Ariennir y rhan fwyaf o waith prosiect yn yr Awdurdod trwy gyllid grant allanol.<br><br>Yn dilyn gohebiaeth â Swyddfa'r Gweinidog ar gymhlethdodau darparu grantiau tymor byr a'r angen i sicrhau bod aelodau'n cymryd rhan yn y broses o gymeradwyo prosiectau/rhaglenni, trafodwyd a mabwysiadodd yr Aelodau broses ar gyfer datblygu a chymeradwyo prosiectau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 23ain o Fawrth 2022.<br><br>Mae Archwilio Cymru wedi amlygu yn flaenorol y pwysau y mae cefnogi darpariaeth trwy ffynonellau grant yn ei roi ar sefydliad. Mae mesurau wedi eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd. Mae Pecyn Cymorth Prosiect wedi cael ei fabwysiadu (cymeradwywyd gan y Gweithgor Aelodau 22.05.19 ac ers hynny wedi'i ddiwygio yn 28.01.22. i gynnwys y Polisi Iaith Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau), ac yn cael ei defnyddio gan |

| | |
|---|---|
| | swyddogion i asesu effaith unrhyw brosiect ar yr Awdurdod.<br><br>Rhoddir diweddariadau Cyllid Grant i Aelodau drwy'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bob chwe mis. |
| | |
| **Grwp Tasg a Gorffen Enwau Lleoedd** | Ym mis Tachwedd 2020, sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleoedd gan Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod gyda'r cylch gorchwyl canlynol:<br>➢ Datblygu fframwaith polisi i alluogi APCE i amddiffyn a safoni'r defnydd o enwau lleoedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri gan yr Awdurdod, ei bartneriaid a'i randdeiliaid.<br>➢ Codi ymwybyddiaeth ymhlith gwahanol gynulleidfaoedd o bwysigrwydd enwau lleoedd yn Eryri; ac fel ffynhonnell sy'n cryfhau cysylltiadau gydag amgylchedd, hanes a threftadaeth yr ardal.<br>➢ Diffinio llwyddiant, rhaglen waith a gyda pha bartneriaid y gellid cydweithio.<br><br>Mewn adroddiad i'r Awdurdod ar 16 Tachwedd 2022, dywedwyd wrth yr Aelodau bod rôl y Grŵp Tasg a Gorffen bellach wedi datblygu'n elfennau mwy hirdymor o waith fel Panel Craffu Enwau Lleoedd.<br><br>Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd yr Aelodau:<br>1. Fabwysiadu'r Egwyddorion Enwau Lleoedd fel canllaw ar y defnydd o enwau lleoedd gan yr Awdurdod.<br>2. Gymeradwyo defnyddio'r enwau *Yr Wyddfa* ac *Eryri* yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan roi disgresiwn i swyddogion i ddefnyddio'r enwau *Yr Wyddfa (Snowdon)* ac *Eryri (Snowdonia)* yn y Saesneg, os bydd y cyd-destun yn galw am hynny at bwrpas addysgu ac ymgysylltu. |

## 6. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Bwriedir eu Cymryd ar gyfer 2022/23

Archwilio Cymru: Twristiaeth Gynaliadwy
Yn ystod 2021/22 cynhaliwyd adolygiad gan Archwilio Cymru mewn ymgais i ateb y cwestiwn a yw'r Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i reoli twristiaeth gynaliadwy yn effeithiol yn y Parc Cenedlaethol.

Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod y cyfnod Hydref 2021 a Chwefror 2022. Wrth adrodd ar y canlyniad ym mis Mehefin 2022, daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod "gan yr Awdurdod bartneriaethau sefydledig i fynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy, ond nid yw ei weledigaeth wedi'i diffinio'n glir eto, sy'n golygu ei bod yn anodd dangos effaith".

Cynigion ar gyfer Gwella
Mae'r tabl islaw yn gosod allan y cynigion ar gyfer gwella a adnabuwyd gan Archwilio Cymru wrth ymgymryd â'r adolygiad. Yn ystod 2022/23, bu'r Awdurdod yn gweithio i roi'r cynigion hyn ar waith, ac mae'r canlyniadau wedi'u hadrodd o dan y penawdau penodol yn y Datganiad hwn ac maen nhw wedi cael eu hymgorffori i'r Rhaglen Waith Corfforaethol am y flwyddyn.

Yn benodol, ar ôl i'r Awdurdod fabwysiadu'r Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri (2035), mae gwaith wedi cychwyn ar gynhyrchu Cynllun Gweithredu a fydd yn cynnwys mesuriadau cyfannol ar effeithiau twristiaeth (R1 ac R2). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bydd gweithredu'r Cynllun Strategol hwn yn gofyn am ymrwymiad sylweddol o ran capasiti ac adnoddau dros y blynyddoedd i ddod, sy'n risg a nodwyd ac yn rhwystr posibl i lwyddiant.

Mae prosiectau amrywiol penodol o fewn Cynllun Eryri eisoes yn ymwneud â gweithio'n agos gyda busnesau twristiaeth i hyrwyddo a darparu arferion twristiaeth gynaliadwy, megis prosiect Yr Wyddfa Di-blastig (R3), ac amlinellir y cynnydd yn ei gylch yn Adroddiad Blynyddol Cynllun Eryri.

| | |
|---|---|
| R1 | O ystyried eglurder cyfyngedig y canlyniadau allweddol a ddiffinnir o amgylch twristiaeth gynaliadwy, a'r gwendidau dilynol yn ei allu i ddangos effaith, rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn:<br>Adeiladu ar y cydweithio cadarnhaol gyda Chyngor Gwynedd i sefydlu canlyniadau clir ac amcanion penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol ac wedi'u cyfyngu gan amser (SMART) i lunio ei waith ar dwristiaeth gynaliadwy. |
| R2 | O ystyried eglurder cyfyngedig y canlyniadau allweddol a ddiffinnir o amgylch twristiaeth gynaliadwy, a'r gwendidau dilynol yn ei allu i ddangos effaith, rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn:<br>Adolygu ei gyfres bresennol o ddangosyddion perfformiad ar draws gweithgarwch partneriaeth allweddol sy'n ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy a sefydlu mesurau ystyrlon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn dangos effaith yn well. |

| | |
|---|---|
| R3 | O ystyried rôl bwysig yr Awdurdod wrth fynd i'r afael ag effaith twristiaeth ar yr amgylchedd naturiol a'r angen i ddylanwadu ar ymddygiad, rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn:<br>Gweithio gyda busnesau twristiaeth i hyrwyddo'r cysyniad o dwristiaeth gynaliadwy a nodi beth a sut y gallant gyfrannu at helpu i gyflawni uchelgeisiau'r Awdurdod. |

<u>Proffil Risg yr Awdurdod</u>

Mae'r tri risg uchaf i'r Awdurdod fel y'u diweddarwyd ym mis Mawrth 2023, fel a ganlyn:

| **Risg** | **Canlyniad** | **Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma** |
|---|---|---|
| Diffyg arian cyllido craidd digonol. | Torri Gwasanaethau. | Ni fu unrhyw gynnydd yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2023/24, er gwaethaf codiadau chwyddiant o tua 10%, lefel na welwyd ers yr 1980au.<br><br>Mae rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn awgrymu dim newid i'r Grant erbyn 2024/25, er gallai hynny newid yn sgil pwysau gwleidyddol. Bydd swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod yn ceisio dylanwadu ar y Llywodraeth i ariannu ein costau chwyddiant anorfod, drwy gyfraniad o rai grantiau penodol, os nad yn y grant craidd.<br><br>Hefyd, mae APCE wedi cadw hyblygrwydd wrth gefn a lefel ddarbodus o gronfeydd i fedru meintioli cyllideb 2023/24 heb weithredu toriadau brys. Felly, er bod yr her ariannol a rhagwelwyd yn amlwg erbyn hyn, rydym yn gallu cyfyngu'r effaith ar wasanaethau'r Awdurdod eleni, ond mi fydd angen arbedion sylweddol erbyn 2024/25, gydag effaith niweidiol, onibai fod y Llywodraeth yn cynyddu'r grant. |
| Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch). | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | Yn dilyn y pandemig a'r cyfnodau clo niferus, mae Plas Tan y Bwlch wedi bod yn gweithredu model busnes hybrid sy'n cynnwys ceisio gwneud y gorau o'r farchnad dwristiaid trwy gynnig pecyn Gwely a Brecwast i ymwelwyr, cynnal digwyddiadau arbennig fel cynadleddau a phriodasau, a chroesawu rhywfaint yn ôl o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel defnyddwyr craidd blaenorol |

| | | |
|---|---|---|
| | | Plas Tan y Bwlch.<br><br>At ei gilydd, mae hyn wedi esgor ar ganlyniadau cymysg. Er bod incwm wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, yn anffodus mae’r costau cyffredinol wedi cynyddu hefyd, yn enwedig pan fydd rhywun yn ystyried y pwysau chwyddiant sy'n wynebu Plas Tan y Bwlch. Gyda'r pwysau ariannol yn wynebu'r Awdurdod yn gyffredinol mae angen cynyddol i fynd i'r afael â'r diffyg. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod y diffyg ac ystyried opsiynau tuag at y dyfodol. |
| Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb. | Mae’r Ysgwrn yn dibynnu ar fudd- dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy. | Gorffennodd Yr Ysgwrn y flwyddyn ariannol olaf gyda gorwariant ar y gyllideb. Roedd y gorwariant o ganlyniad i gyfuniad o lai o incwm oherwydd bod llai o grwpiau yn ymweld o ganlyniad i effaith barhaus Covid-19 a chynnydd sylweddol yn y rhan fwyaf o gostau rhedeg. Mae cynnal Yr Ysgwrn o fewn y gyllideb yn her barhaus yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol.<br><br>Mae costau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ond mae'r hinsawdd bresennol o gostau cynyddol yn ddigynsail i'r Ysgwrn, gydag ychydig iawn o le i symud o fewn y gyllideb. Mae'r rhan fwyaf o gostau, megis gwres, ffôn a thrydan yn sefydlog ac yn angenrheidiol ar gyfer safonau achredu.<br><br>Derbyniwyd cefnogaeth grant sylweddol yn 2022/23 er mwyn cefnogi gweithgaredd a gwaith addysg a bu hynny’n gymorth i gynnal rhaglen safonol ac apelgar i deuluoedd ac ysgolion. Bydd gwaddol y buddsoddiad hwn yn cael effaith gadarnhaol ar raglenni 2023/24 a bydd swyddogion yn parhau i fynd ati’n rhagweithiol i geisio a gwneud cais am gyllid i gefnogi pob elfen o weithgarwch er mwyn cynnal a datblygu cynulleidfaoedd ac incwm. |

## 7. Barn

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â'r materion y cyfeiriwyd atynt yn rhan 6 yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella a bennwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.





**EMYR WILLIAMS**

**PRIF WEITHREDWR**
**AWDURDOD PARC**
**CENEDLAETHOL ERYRI**

**DYDDIAD: 14.06.2023**

**ANNWEN HUGHES**

**CADEIRYDD**
**AWDURDOD PARC**
**CENEDLAETHOL ERYRI**

**DYDDIAD: 14.06.2023**